**<u>Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Canlyniad</u>**

**Swyddog:** PC 3699 Robert Masson
**Cyfeirnod Achos:** CM/9/26
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 12 Mehefin 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM

Yn dilyn y cais gan fargyfreithiwr y swyddog i ohirio cyn unrhyw ganlyniad, rwyf wedi pwyso a mesur budd personol y swyddog yn erbyn fy nyletswydd gyffredinol i'r cyhoedd. Mae ym mudd y cyhoedd cael datrysiad cyflym ar gyfer yr achos hwn. Mae'r swyddog wedi bod yn ymwybodol o'r broses gamymddwyn hon ers mis Chwefror 2026. O ganfod Camymddwyn Difrifol, byddai lliniariad ychwanegol wedi cyfyngu ar y dybiaeth statudol o ddiswyddo.

Rwyf eisoes wedi penderfynu fod ymddygiad PC Masson yn cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.

Wrth benderfynu ar y canlyniad, rwyf wedi defnyddio'r ymdriniaeth strwythuredig a amlinellir yng Nghanllawiau ar Ganlyniadau'r Coleg Plismona, sef:

1. Asesu difrifoldeb y camymddwyn
2. Cadw diben achosion camymddwyn mewn cof
3. Dewis y canlyniad sy'n cyflawni'r diben hwnnw fwyaf priodol.

**Asesu Difrifoldeb**

<u>Beiusrwydd</u>

Mae beiusrwydd PC Masson yn uchel. Roedd ei ymddygiad yn fwriadol, mynych a pharhaus dros gyfnod hirfaith. Nid unwaith y gwnaeth wasgu'r bysellau, ond yn ymddygiad ymwybodol sawl tro, weithiau am oriau yn ystod diwrnod gwaith.

Rwyf yn fodlon ei fod yn gwybod, neu dylai fod wedi gwybod, fod ei ymddygiad yn anghywir. Mae cynnal argraff gamarweiniol o weithio'n dangos gwyriad amlwg o'r safonau disgwyliedig gan swyddog heddlu.

Tra mae'r Swyddog wedi awgrymu mai ei gymhelliad oedd parhau'n ymatebol, nid wyf yn derbyn fod hyn yn egluro'r raddfa, yr hyd, neu ailadrodd yr ymddygiad. Roedd yr hyn a wnaeth yn cynnwys camgyfleu ei weithgarwch yn ymwybodol a bwriadol.

<u>Niwed</u>

Mae'r niwed yn yr achos hwn yn bennaf o ran enw da, ond er hynny o bwys.

Mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn mynegi'n glir, hyd yn oed os nad oes niwed uniongyrchol, mae'r effaith bosibl ar hyder y cyhoedd yn ganolog i'r asesiad.

Mae anonestrwydd gan swyddog heddlu'n hynod niweidiol. Mae gan y cyhoedd hawl disgwyl i swyddogion weithredu'n onest ac yn uniawn. Byddai ymddygiad fel hyn, os yn hysbys, yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

<u>Ffactorau Gwaethygol</u>

Rwyf yn nodi'r nodweddion gwaethygol canlynol:

- Roedd yr ymddygiad yn fynych, yn rheolaidd ac yn barhaus dros gyfnod hirfaith
- Roedd yn cynnwys patrwm o ymddygiad bwriadol, nid camgymeriad unigol
- Roedd yn creu ac yn cynnal argraff gamarweiniol o waith yn cael ei ymgymryd
- Ni chafodd yr ymddygiad ei adrodd ei hun a daeth ond yn amlwg drwy archwiliad
- Digwyddodd yr ymddygiad mewn amgylchiadau lle ymddiriedwyd y Swyddog i weithio'n annibynnol rhywfaint
- Mae tystiolaeth gyfyngedig ynghylch amgyffrediad neu adlewyrchiad dilys effaith yr hyn a wnaeth.

Rwyf hefyd yn nodi fod y cyflwyniadau'n awgrymu fod y rhai oedd yn goruchwylio'r Swyddog yn anymwybodol o'r ymddygiad, sy'n tanlinellu natur dwyllodrus yr ymddygiad.

<u>Ffactorau Lliniarol</u>

Rwyf wedi ystyried y lliniariad a gyflwynwyd o flaen llaw ar ran PC Masson:

- Ei fod wedi cyfaddef pwyso'r bysellau yn gynnar
- Ei wasanaeth da blaenorol a dim camymddwyn blaenorol
- Tystiolaeth gadarnhaol o ran ei foeseg gwaith a'i gynhyrchiant mewn pethau eraill
- Ei liniariad personol, gan gynnwys hyd gwasanaeth.

Fodd bynnag, rwyf yn cysylltu pwysau cyfyngedig ar y ffactorau hyn. Mae'r Canllawiau'n mynegi'n glir fod lliniariad yn dylanwadu llai lle mae camymddwyn yn cynnwys anonestrwydd, oherwydd yr angen cyffredinol i gynnal hyder y cyhoedd.

Rwyf hefyd wedi ystyried ac wedi derbyn cyngor cyfreithiol ar y cyflwyniadau y dylai'r mater gael ei ohirio er mwyn cael ymholiadau pellach. Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai deunydd pellach o'r fath yn newid fy asesiad difrifoldeb. Derbynnir a chefnogir y ffeithiau allweddol gan dystiolaeth wrthrychol. Rwyf yn fodlon y gallaf barhau dod i ganlyniad ar ôl derbyn y wybodaeth ger fy mron.

**Ystyried Canlyniad**

Rwyf wedi ystyried yr ystod lawn o ganlyniadau sydd ar gael, gan gynnwys Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol.

Fodd bynnag, nid wyf yn ystyried y byddai canlyniad llai yn adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad yn ddigonol. Ni fyddai chwaith yn bodloni amcanion cyffredinol achosion camymddwyn, sef cynnal hyder y cyhoedd, cynnal safonau, a gwarchod y cyhoedd.

Mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn mynegi'n glir os ydy ymddygiad yn cynnwys anonestrwydd a risgiau difrifol sy'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, mae diswyddo'n debygol o ddilyn. Mae hyn yn enwedig lle mae ymddygiad yn effeithio ar statws ac enw da'r proffesiwn.

Yn yr achos hwn, rwyf yn dod i'r casgliad na fyddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd ond yn pryderu am yr ymddygiad hwn, ond byddent wedi'u brawychu. Mae creu argraff ffug o weithio'n fynych yn mynd i galon yr ymddiriedaeth sydd mewn swyddogion heddlu.

**Penderfyniad (Canlyniad)**

Wedi ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus, y cyflwyniadau a wnaed, a'r canllawiau perthnasol, rwyf yn fodlon fod ymddygiad PC Masson yn ei hanfod yn anghydnaws hefo gwasanaeth parhaus yn yr heddlu.

Mae difrifoldeb y camymddygiad, y lefel beiusrwydd mawr, yr effaith ar hyder cyhoeddus, a diffyg ffactorau lliniarol digonol yn fy arwain at y casgliad amlwg mai'r unig ganlyniad priodol a chymesur ydy diswyddo.

Canlyniad y Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym hwn ydy bod PC Robert Masson yn cael ei ddiswyddo heb rybudd a bydd yn cael ei roi ar Restr Unigolion Gwaharddedig y Coleg Plismona.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**12 Mehefin 2026**